

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	8 CHWEFROR 2018
TEITL	ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU
PWRPAS YR ADRODDIAD	ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 22 IONAWR 2018
AWDUR	CYNGHORYDD RICHARD MEDWYN HUGHES
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 22 Ionawr 2018 gyda Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y Cyngorydd Richard Medwyn Hughes, yr Is-gadeirydd y Cyngorydd John Brynmor Hughes (Is-gadeirydd) a'r Cyngorwyr Angela Russell a Berwyn Parry Jones, Sharon Warnes (Aelod Lleyg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio) a Bleddyn Rhys (Arweinydd Archwilio) yn bresennol.

1.2 Yr adroddiadau a dderbyniodd sylw'r Gweithgor oedd:

TEITL	ADRAN	BARN YR ARCHWILIAD
Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol – Defnydd o Sachau Coch a Llarpwyr	Corfforaethol	C
Iechyd a Diogelwch - Ysgol Dyffryn Ardudwy	Addysg	C
Iechyd a Diogelwch – Ysgolion Cynradd	Addysg	d/b

1.3 Mynychodd y swyddogion perthnasol i drafod yr adroddiadau

2.1 Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol – Defnydd o Sachau Coch a Llarpiwyr

2.1.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Gwiriwyd y cyfriflyfr am daliadau i Antur Waunfawr ar y codau gwariant perthnasol. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd modd gwahaniaethu rhwng gwasanaeth casglu sachau coch a gwasanaethau eraill mewn ffordd ymarferol i'r ymarferiad yma, ond ymddengys bod gwariant ar y cyfan wedi cynyddu yn raddol. Mae hyn yn cyd-fynd â darganfyddiadau yr Uned Wybodaeth sydd o'r farn bod y defnydd o sachau coch wedi cynyddu yn raddol oherwydd symudiadau swyddfeydd diweddar. Er bod cynnydd yn y defnydd o sachau coch, mae eu defnydd ar gyfer symud swyddfeydd yn cyd-fynd â pholisi'r Cyngor.

Cynhaliwyd archwiliad gweledol o swyddfeydd Pencadlys a Phlas Llanwnda er mwyn adnabod sachau coch agored sydd ddim dan glo. Cynhaliwyd yr archwiliad yma wedi'r hwyr er mwyn adnabod ble cedwir y sachau dros nos. Gwelwyd fod y trefniadau yn briodol yn y rhan helaeth o swyddfeydd ymwelwyd â hwy, ond hefyd darganfuwyd enghreifftiau ble cedwir sachau coch yn agored a ddim dan glo. Ymddengys felly fod rhai swyddfeydd yn gweithredu yn groes i'r Polisi Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol. Drwy waredu â gwastraff cyfrinachol dydd i ddydd mewn sachau coch agored yn hytrach na'i llarpio, mae'r Cyngor yn cadw gwybodaeth heb fod angen, mewn sach coch amlwg sy'n datgan yn glir mai gwastraff cyfrinachol sydd o fewn. Dylid nodi nad oes gan y cyhoedd fynediad i unrhyw un o'r lleoliadau yma.

2.1.2 Croesawyd Helen Parry, Rheolwr Gwybodaeth i'r cyfarfod i drafod yr archwiliad.

2.1.3 Cyflwynwyd crynodeb o ddarganfyddiadau'r archwiliad gan y Rheolwr Archwilio. Mynegodd y Rheolwr Archwilio bwysigrwydd gwaredu gwastraff cyfrinachol mewn modd priodol yn arbennig o ystyried y daw Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol i rym ar 25 Mai 2018.

2.1.4 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod y Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth wedi gwneud sawl ymdrech i godi ymwybyddiaeth staff y Cyngor am bwysigrwydd gwaredu gwastraff cyfrinachol gyda sawl e-bost wedi ei gylchredeg ynghyd â bwletin ar dudalennau'r fewnwyd. Bu i'r Rheolwr Archwilio arddangos y bwletin diweddaraf i aelodau'r Gweithgor. Mynegodd nad adlewyrchiad ar ymdrechion y Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth oedd categori barn yr archwiliad ond yn hytrach diffyg gweithrediad priodol o safbwynt staff y Cyngor.

2.1.5 Cafwyd trafodaeth ar y camau mae'r Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth wedi cymryd ers cyhoeddi'r adroddiad. Eglurodd y Rheolwr Gwybodaeth bod Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol wedi cyfeirio lluniau o'r sachau coch agored a'u lleoliadau at holl Benaethiaid Adran y Cyngor er gweithrediad. Eglurwyd ei fod yn bosib annog adrannau i fuddsoddi mewn rhagor o larpiwyr, a'u cadw mewn lleoliadau amlwg megis ger peiriannau ffotocopiö. Nodwyd nad arbed arian yw bwriad lleihau'r defnydd o sachau coch, a bod y gost o ddefnyddio sachau coch yn isel ar y cyfan.

- 2.1.6 Fodd bynnag, yn sgil darganfyddiadau'r archwiliad yma ac archwiliadau cyffelyb a gynhaliwyd yn y gorffennol, mynegwyd pryder nad oes digon o ymwybyddiaeth ymysg swyddogion o'r risgiau a'r cyfrifoldeb sydd ar unigolion i ddiogelu gwybodaeth, er gwaethaf ymdrechion y Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth. Ymholodd aelodau'r Gweithgor beth fuasai'r goblygiadau o ddod a'r drefn sachau coch i ben yn gyfan gwbl, a gorfodi'r gwasanaethau i waredu gwastraff drwy larpio yn unig. Eglurwyd na fuasai hyn yn ymarferol gan fod defnyddio sachau coch i'r pwrpas cywir yn ffordd effeithlon o waredu gwastraff, hynny yw, gwaredu mewn swmp a selio'r sach cyn ei waredu yn syth. Er hyn, **cytunodd y Rheolwr Gwybodaeth i ddethol Adran er mwyn peilota trefn ble fydd ceisiadau am sachau coch yn cael eu herio er mwyn sicrhau bod ganddynt bwrpas penodol a bod cadarnhad y bydd y sach yn cael ei waredu yn fuan wedi ei dderbyn.** Nid oedd darganfyddiadau'r archwiliad yn amlygu bod rhai adrannau/gwasanaethau yn ymddangos yn well neu yn waeth na'i gilydd, felly cytunwyd i ddethol adran ble fydd lleihau'r defnydd o sachau coch yn fwy ymarferol, a bydd trafodaethau am hyn yn cael ei gynnal maes o law.
- 2.1.7 Roedd y Gweithgor ac Archwilio Mewnol yn cydnabod yr ymdrech gan y Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth, gan nodi hefyd bod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau cydymffurfriad â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.
- 2.1.8 Diolchwyd i'r Rheolwr Rheoli Gwybodaeth am fynychu'r cyfarfod ac am egluro'r sefyllfa gyfredol a'r gwaith sydd ar droed ar gyfer y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a ddaw i rym yn 2018.

2.2 Iechyd a Diogelwch – Ysgol Dyffryn Ardudwy

2.2.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Gwelwyd yn gyffredinol bod trefniadau iechyd a diogelwch yn bodoli yn Ysgol Dyffryn Ardudwy, fodd bynnag, mae angen tynhau ar yr agweddau canlynol er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.

Mae gan yr Ysgol Bolisi Iechyd a Diogelwch sydd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Fodd bynnag, cedwir y polisi yn electroneg gan eu bod yn Ysgol werdd, sydd yn golygu nad oes gan staff fynediad ato.

Nid oedd gan yr Ysgol gopi o Bolisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol (2015), anfonwyd copi o'r polisi cyfredol at sylw'r Pennaeth.

Nid yw'r Pennaeth wedi mynychu hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel, mae hyn yn ddifffyg cyffredinol i holl ysgolion Gwynedd, ac nid yw'n adlewyrchiad o ddifffyg rheolaethol penodol Ysgol Dyffryn Ardudwy. Mae trefniadau bellach ar waith gan yr Adran Addysg i sicrhau bod pob Pennaeth cynradd yn derbyn yr hyfforddiant yma. Gwiriwyd sampl o asesiadau risg yr ysgol er mwyn sicrhau bod ganddynt asesiadau hanfodol/generig sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor a'u bod yn gyfredol. Gwelwyd bod asesiadau mewn lle ar gyfer pob un o'r risgiau archwiliwyd ond nad oeddynt yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Mynegodd y Pennaeth bryder nad oedd yr Ofalwraig wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ynglŷn â sut i gynnal y profion diogelwch tân cyn cychwyn yn ei swydd. Nodir, bod yr Ofalwraig nawr yn ymwybodol o sut i gynnal y profion.

Nid oedd Asesiad Risg Tân yn yr ysgol, cafwyd copi ohono gan swyddog o'r Uned Eiddo yn dilyn yr ymweliad ac fe'i hanfonwyd ymlaen i'r Pennaeth.

Nid oedd gan yr Ysgol Gynllun Rheoli Tân, hysbyswyd y Pennaeth o'r angen i gwblhau'r cynllun gyda manylion yr ysgol ac anfonwyd templed cyfredol iddi yn dilyn yr ymweliad.

Nid oedd yr holl gyfarpar diogelwch tân wedi ei gofnodi yn y Llyfr Log Tân. Hysbyswyd y Pennaeth o'r angen i wneud hyn yn y Llyfr Log Tân cyfredol.

Gwiriwyd y profion diogelwch tân ar ddiwrnod yr ymweliad a gwelwyd nad oedd cofnodion bod profion llwybrau dianc wedi eu cynnal. Dywedodd y Pennaeth bod y llwybrau yn cael eu cadw'n glir ond ymddengys nad oedd prawf wythnosol yn cael ei gynnal. Yn ogystal, roedd y diffoddwyr tân yn cael eu profi yn fisol yn hytrach nag yn wythnosol. Nid oedd yr ysgol yn defnyddio Llyfr Log Tân cyfredol i gofnodi'r profion, hysbyswyd y Pennaeth ohono ac anfonwyd copi yn dilyn yr ymweliad.

Wrth wirio'r cofnodion 'Rhedeg Alfa Dŵr a Ddefnyddir yn Anaml' gwelwyd bod y prawf diwethaf wedi ei gynnal bythefnos a hanner yn ôl yn hytrach nag yn wythnosol. Mae gan yr ysgol drefniadau mewn lle ar gyfer cofnodi damweiniau/anafiadau. Mae gan dri aelod o staff gymhwyster cymorth cyntaf ac maent yn hysbysu rhieni/gwarcheidwaid o ddigwyddiad. Ar gyfer damweiniau mwy difrifol i ddisgyblion mae'r ysgol yn defnyddio ffurflenni 'Adrodd am ddamwain neu ddigwyddiad sy'n achos i fân anafiadau difrifol i Ddisgybl' ac yn defnyddio'r Llyfr HS11 (2004) ar gyfer staff i adrodd i'r Uned Iechyd a Diogelwch. Eglurwyd bod y ffurflenni yma wedi dyddio bellach a bod angen defnyddio'r 'Llyfr Cofnodi Damweiniau, Afiechyd, Digwyddiad Peryglus neu Ddigwyddiad Treisgar' HS11 (2014) i gofnodi unrhyw ddamweiniau/digwyddiadau o hyn ymlaen. Roedd Llyfr HS11 (2014) ynghyd â chanllawiau eisoes yn yr ysgol.

Nid oedd y fersiwn gyfredol o'r Cynllun Rheoli Asbestos yn yr ysgol, felly anfonwyd copi ohono yn dilyn yr ymweliad. Yn ogystal, anfonwyd rhestr asesiadau risg hanfodol/generig fel bod modd i'r Pennaeth adnabod asesiadau risg eraill sydd eu hangen eu cynnal yn yr ysgol.

2.2.2 Croesawyd Ann Jones, Pennaeth Ysgol Dyffryn Ardudwy ac Owen Owens, Uwch Reolwr Ysgolion i'r cyfarfod.

2.2.3 Amlinellodd y Rheolwr Archwilio brif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd yn cynnwys:

- Diffyg hyfforddiant IOSH Rheoli'n Ddiogel
- Diffyg cofnodi damweiniau ar ffurflenni cyfredol HS11
- Methiant i adolygu asesiadau risg yn flynyddol
- Diffyg asesiad a chynllun tân yn yr Ysgol
- Methiant i brofi diffoddwyr tân yn wythnosol
- Methiant i gofnodi cyfarpar diogelwch tân
- Methiant i redeg tapiau a ddefnyddir yn anaml i bwrpas rheoli legionella

- 2.2.4 Trafodwyd cynnwys yr adroddiad gyda Phennaeth yr Ysgol, gyda'r Uwch Reolwr Ysgolion yn atgyfnerthu'r sylwadau yng nghyd-destun trefniadau'r Adran Addysg, sydd hefyd yn destun trafodaeth benodol ar agenda cyfarfod y Gweithgor yma.
- 2.2.5 Eglurodd y Pennaeth bod nifer o'r camau cytunedig bellach wedi eu gweithredu a'i bod bellach yn mynychu cwrs IOSH, yn dilyn gwahoddiad gan yr Adran Addysg. Eglurodd yr Uwch Reolwr Ysgolion bod grant Ysgolion Bach a Gwledig wedi galluogi'r Adran i ariannu'r cyrsiau yma, ac mae disgwyl i bob Pennaeth fynychu'r cwrs yn rheidrwydd eu rôl fel Rheolwyr Safle.
- 2.2.6 Dangosodd y Pennaeth gopi o lyfr HS11 ar ei fformat cyfredol fel prawf ei bod yn defnyddio'r ffurflenni cyfredol, ond cydnabuwyd mai'r llyfr hanesyddol oedd mewn defnydd yn yr ysgol ar ddiwrnod yr ymweliad archwilio.
- 2.2.7 Eglurodd y Pennaeth ei bod wedi dechrau adolygu a diweddarau'r asesiadau risg a bydd y dasg wedi ei gwblhau cyn bo hir. Fodd bynnag, er bod y Pennaeth yn derbyn sylwadau'r adroddiad, mynegodd bod llwyth gwaith Pennaeth yn rhwystr i gadw popeth yn gyfredol.
- 2.2.8 Cafwyd cryn drafodaeth ynglŷn â rôl ac atebolrwydd tasgau dan ofal y Gofalwyr, megis trefniadau profi offer. Eglurodd yr Uwch Reolwr Ysgolion bod Gofalwyr ysgolion, fel gweithwyr arlwy, yn cael eu cyflogi gan yr Uned Darparu a bod cyfrifoldebau lechyd a Diogelwch o fewn eu swydd ddisgrifiad. Fodd bynnag, mae'r atebolrwydd am eu gwaith yn aneglur oherwydd yn ddamcaniaethol yr Uned Darparu sy'n gyfrifol am safon eu gwaith, ond y Pennaeth sy'n Reolwr ar y Safle. **Mynegodd y Rheolwr Archwilio er mai'r gofalwyr sydd yn ymgymryd â rhai profion penodol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, mae cyfrifoldeb ar y Pennaeth fel rheolwr safle i wirio yn achlysurol y cofnodion a gedwir gan y gofalwr.**
- 2.2.9 Diolchwyd i'r Pennaeth am fynychu'r cyfarfod ac am ddiweddarau'r Gweithgor am y datblygiadau ers pan ryddhawyd yr adroddiad archwilio a'r trefniadau sydd eisoes ar waith.

2.3 Iechyd a Diogelwch – Ysgolion Cynradd – Cyffredinol

- 2.3.1 Penderfynwyd yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2017 i wahodd swyddogion perthnasol o'r Adran Addysg a'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch i'r cyfarfod. Fodd bynnag, nid oedd cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn bresennol ond roedd yr Uwch Reolwr Ysgolion yn bresennol ar ran yr Adran Addysg.

- 2.3.2 Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio ddogfen oedd yn amlygu'r risgiau a adnabuwyd yn y chwe ysgol a ymwelwyd â hwy yn ystod 2017-18, gan ymhelaethu ar drefniadau cyffredinol yr Adran a amlygwyd yn ystod trafod adroddiad Iechyd a Diogelwch - Ysgol Dyffryn Ardudwy.
- 2.3.3 Yn dilyn ymholiad gan y Gweithgor, eglurodd yr Uwch Reolwr Ysgolion pa hyfforddiant sydd ar gael i Bennaeth, yn enwedig i Bennaeth newydd, mewn perthynas â Rheoli Safle. Eglurodd nad yw rheoli safle yn rhan o gymhwyster CPCP ond bod cwrs Rheoli Safle mandadol eisoes ar gael i Bennaethiaid, ond bod yr Adran Addysg eisoes wedi adnabod yr angen am gwrs IOSH ers peth amser a bod y grant Ysgolion Bach a Gwledig yn gyfle gwych i weithredu ar hyn.
- 2.3.4 Roedd cryn deimlad ymysg y Gweithgor nad oedd rheoli safle yn cael ei flaenoriaethu gan Bennaethiaid, er gwaethaf pwysigrwydd Iechyd a Diogelwch disgyblion a staff. Mynegodd aelodau'r Gweithgor ei fod yn hanfodol bod y trefniadau angen bod mor rhwydd a syml â phosib, gyda chyfathrebu cryf rhwng y Cyngor a'r Ysgolion er mwyn cefnogi Bennaethiaid sydd wrth reswm yn dod o gefndir Addysgol ac nid o reoli safleoedd.
- 2.3.5 Ymholodd y Rheolwr Archwilio os oes cynlluniau mewn llaw i rannu darganfyddiadau'r Archwiliad gyda holl ysgolion cynradd Gwynedd. Mynegodd yr Uwch Reolwr Ysgolion buasai'n disgwyl i'r cyrsiau IOSH gwmpasu agweddau o'r adroddiad, a bod cylchlythyrau yn cael eu dosbarthu a chyfarfodydd busnes yn cael eu cynnal, ond yn sgil y maes pwysig yma, y buasai'n fuddiol dosbarthu neges fwy pendant. **Gofynnodd yr Uwch Reolwr Ysgolion i'r Rheolwr Archwilio ddrafftio llythyr ar gyfer yr ysgolion ar ddarganfyddiadau'r archwiliad Iechyd a Diogelwch – Ysgolion Cynradd. Cytunodd y Rheolwr Archwilio i'r cais hyn a bydd y llythyr yn cael ei anfon i'r Ysgolion, yn enw'r Uwch Reolwr Ysgolion a'r Gweithgor Gwella Rheolaethau.**
- 2.3.6 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Ysgolion am drafodaeth agored a'r cynlluniau sydd ar droed i wella rheolaethau.